

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,

Nos Lun, 23 Hydref 2017

am 7 yr hwyr.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol: Mr Adrian Jones-Cadeirydd **AJ**, Mrs Linda Jones **LJ**, Ms Cari Jones **CJ**, Dr Edward Jones **EJ**, Mr Victor Owen **VO**, Mr OGRoberts **OGR**, Miss JARoberts **JAR**, Mrs EABThomas **EABT**, Cynghorwr Llinos M Huws **LMH**. Ms J Ferry (o'r cyhoedd.)

Ymddiheuriadau:

Mr Aled Ifan.

2. Datgan Diddordeb: Dim

3. Cofnodion Medi 2017 a unrhyw faterion yn codi.

3.1 Adroddodd y clerc mae dim ond un dyfnbris oedd wedi allu gael ar gyfer trin y giat yn y fynwent er cysylltu a pedwr cwmni. Nodwyd bod modd derbyn dyfnbris os fyddai'r gwariant odan swm arbennig. Y clerc i wirio'r rheolau i wneud yn siwr o'r swm.

3.2 Adroddodd y clerc wedi iddi gysylltu a CSYM ynglyn a'r broblem baw ci fod CSYM wedi ymweld a'r pentref, ac wedi nodi problem wrth yml Bron y Graig, ac maent yn bwriadu glanhau'r ardal yn fuan. Nodwyd nad oes gan CSYM arian i roi bin pwrpasol yn y Maes Chwarae. Cytunwyd i'r clerc cael amcangyfrif o gostau gosod arwyddion ar giatau'r maes chwarae yn nodi "Dim Cwn."

3.3 Nododd **AJ** ei fod yn falch o weld gwaith o atgyweirio'r wal ar gyrion y pentref yn parhau, ond na fyddai'n debyg fod y wal gyfa yn mynd i gael ei thrin.

3.4 Nododd y clerc fod ymholiadau yn parhau gyda lleoliad a dyluniad yr hysbyswrdd. Nododd **AJ** byddai hysbyswrdd tebyg i Llanfairpwll yn addas. Y clerc i edrych arno a gwneud ymholiadau am un tebyg.

3.5 Nododd **JAR** ei bod yn ymddangos fod stryd Baptist wedi cael ei llnau, ond na fydda hyn yn datrys y broblem yn y tymor hir. Nododd **LMH** fod cyfrifoldeb ar CSYM i sicrhau eu bod yn cel pris teg am y tir.

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Nos /evening: (01407) 749 162
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

Cyngor Cymuned Bodedern



4. Maes Chwarae/ Ffrindiau Bodedern.

Nododd **LH** fod offer newydd ar y ffor yn fuan, ac fod y maes yn llenwi yn dda. Tybiwyd byddai angen cael trafodaeth ar sut i barhau yn y tymor hir gan nad oeddynt eisiau i'r cyfrifoldeb losgi pawb allan. Nododd **CJ** fod parti calan gaeaf i'w gynnal a fyddai'n codi arian i'r gronfa.

5. Materion Cynllunio.

5.1 Yr Allt, Stryd yr Eglwys 13C17J.

Dim gwrthwynebiad.

5.2 Bodlas, Bodedern 13C183D/RUR

Dim gwrthwynebiad.

6. Cyf ethol dau aelod newydd.

Nododd y clerc ei bod wedi derbyn dau enw ar gyfer y ddau sedd wag. Nododd **CJ** ei bod hithau wedi derbyn enw a ddymunai gyflwyno. Y clerc i ddarparu rhybudd o gyf ethol yn unol a'r rheolau.

7. Gohebiaeth.

Dim.

8. Taliadau i'w gwneud.

MON GC	MONGC2458	£200.00	Rhif Siec 200029
Cyflog clerc	Gorff/Awst/Medi	£600.00	Rhif siec 200030

9. Unrhyw fater arall.

9.1 Nododd **LMH** fod angen i **CSYM** ddod o hyd £2,000,000 o arbedion, ac mwy ar gyfer 2019-20 ac bod hyn yn ofyn mawr i **CSYM**. Nodwyd ei bod yn bwysig pwysleisio mae dylanwedd San Steffan oedd yn gorfodi'r toriadau yn y gyllideb. Nodwyd hefyd fod ymgynghoriad eang wedi ei gyflawni, ac ei bod yn amlwg fod rhoi blaenoriaeth i wasanaethau cymdeithas yn bwysig iawn. Pwysleiswyd ei fod yn gyfnod heriol iawn, ac bod dyled mawr i'r staff gweithgar sy'n mynd gam ychwanegol i sicrhau ansawdd y gwasanaethau ac sydd yn aml yn derbyn beirniadaeth allanol anheg.

10. Dyddiad cyfarfod nesaf.

Nodwyd newid dydd y cyfarfod nesaf o nos Lun i nos Fawrth, 28 o Dachwedd.

Cau 7.45 o'r gloch.

Yn dilyn diwedd y cyfarfod, siaradodd Ms. Ferry â'r cadeirydd ac eglurodd nad oedd hi'n rhan o greu y ddeiseb flaenorol, ac ymddiheurodd am unrhyw drallod a achoswyd.

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachaeth,
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Nos /evening: (01407) 749 162
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com